

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol ag arsylwyd.

Cyflwyniad

Nid oes angen i ddigwyddiad critigol fod yn ddigwyddiad difrifol neu beryglus, mae'n ddigwyddiad sydd fel arfer yn ddamweiniol ac yn gofyn am fyfyrddodau manwl (Tripp, 2012). Roedd pedwar arsylwad gwahanol i gyd [gweler atodiad 1-4], bydd yr aseiniad hwn yn canolbwyntio ar un arsylwad penodol [gweler atodiad 1], wrth ddilyn cwestiynau arsylwi Fletcher-Wood (2016). Yn dilyn yr arsylwad, y cam nesaf oedd ymchwilio i lenyddiaeth briodol i gefnogi fy nigwyddiad a ddewiswyd. Mae Donaldson (2015), yn nodi y bydd y cwricwlwm newydd yn caniatáu i athrawon ddefnyddio dull hyblyg o ddylunio cwricwlwm, sy'n golygu y bydd angen iddynt fyfyrar eu gwaith. Felly, mae hyn yn pwysleisio perthnasedd o wneud yr aseiniad hwn megis i werthuso beirniadol a nodi'r camau nesaf.

Arsylwi

Bydd yr adran hon yn edrych ar y cyd-destun o fewn yr ysgol a'r dosbarth penodol. Cyfeirir at yr ysgol fel 'Ysgol L' i sicrhau cyfrinachedd trwy gydol yr aseiniad, sydd yn dilyn y canllawiau a nodwyd yn BERA (2018). Mae adroddiad Estyn (2017) yn darparu gwybodaeth bwysig am ysgol L, megis Sir Abertawe yw'r awdurdod lleol ac mae ysgol L wedi'i lleoli mewn tref. Prif iaith yr ysgol yw Cymraeg, sy'n golygu bod pob pwnc yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg a chyflwynir Saesneg i'r disgyblion o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 6. Awgryma'r ystadegau bod 582 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr (Estyn, 2017). Fodd bynnag mae'r pennaeth wedi cadarnhau bod y nifer wedi cynyddu o 582 ers yr adroddiad hwn. Mae 20 dosbarth o fewn ysgol L, sydd hefyd yn cynnwys 3 dosbarth oed cymysg.

Y cyfartaledd cenedlaethol am dderbyn prydau ysgol am ddim yw 19%, ac yn ôl adroddiad Estyn, mae ysgol L yn llai na'r cyfartaledd gyda 7% yn gymwys. Mae 13% o

ddisgyblion yn cael eu cydnabod ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn cynnwys yr ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae hyn hefyd yn is na'r canran cenedlaethol o 25%. Pwysleisia'r adroddiad Estyn bod ychydig bach o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir yr iaith Cymraeg.

Mae'r canfyddiadau ar gyfer y traethawd hwn yn seiliedig ar ymddygiadau diddorol gan ddisgybl o flwyddyn 2, a gyflwynwyd yn ystod y wers Mathemateg. Er mwyn cadw anhysbysrwydd, cyfeirir at y disgybl fel 'Plentyn X' (BERA, 2018). Mae blwyddyn 2 yn ddosbarth o 30 disgyblion (23 bachgen a 7 merch), ac oedd awyrgylch y dosbarth yn hapus, lliwgar a heddychlon iawn. Roedd disgyblion blwyddyn 2 yn eistedd ar y mat yn aros am y cyflwyniad ynglŷn â gwers heddiw, tra bod plentyn X yn eistedd ar gadair mewn cornel benodol, ac yn chwarae gyda LEGO [gweler atodiad 5]. Sylweddolodd y plant bod rhywun newydd yn y dosbarth, ond na chyflwynodd plentyn X unrhyw arwyddion amlwg bod rhywun gwahanol yn y dosbarth. Mae plentyn X yn aros am asesiad ar gyfer anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASA), oherwydd bod staff yr ysgol yn credu ei fod yn dangos arwyddion tebyg.

Methodoleg

Gallwch ddefnyddio ymchwil fel ffordd dda o gasglu gwybodaeth (Kumar, 2014), ac ar gyfer yr aseiniad hwn casglwyd y data trwy ddefnyddio ymchwil ansoddol. Y rheswm ei fod yn ansoddol ac nid yn astudiaeth feintiol yw oherwydd y dull anstrwythuredig a ddefnyddiwyd i arsylwi (Kumar, 2014). Mae dau fath o arsylwi sef; arsylwi cyfranogwyr ac arsylwi heb gyfranogwyr (Kumar, 2014). Arsylwi cyfranogwyr yw pryd mae data yn cael ei gasglu trwy'r ymchwilydd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'r cyfranogwr, ac maen nhw'n ymwybodol bod arsylwad yn digwydd (Kumar, 2014). Arsylwi heb gyfranogwyr yw pan nad yw'r ymchwilydd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ond erys i arsylwi, sef yr hyn a ddigwyddodd yn y digwyddiad hwn. Nid oedd plentyn X yn ymwybodol o'r arsylwi, er mwyn i geisio adlewyrchu ymddygiad arferol a chynrychiolaeth gywir o drefn feunyddiol ym mywyd ysgol pob dydd. Fodd bynnag, wrth i'r arsylwr bod yn bresennol, gallai hyn achosi newid ymddygiad o fewn y dosbarth sef yr 'Effaith Hawthorne' (Kumar, 2014). Felly, mae angen bod yn ymwybodol o hyn wrth gasglu gwybodaeth. Cymerodd yr arsylwr nodiadau yn ystod y wers i sicrhau nad anghofiwyd pwyntiau allweddol. O ganlyniad, wrth ysgrifennu nodiadau mae'n bosib colli gwybodaeth allweddol sydd yn cael ei arddangos gan blentyn X (Kumar, 2014).

Mae llawer o wahanol fathau o agosáu at ddata, er enghraifft y dull theori sylfaen, yr arddull arbrofol ac astudiaeth achos (Bell, 2005). Roedd y dull a ddewiswyd ar gyfer yr aseiniad hwn yw achos beirniadol i'w wneud â digwyddiad critigol plentyn X. Mae nifer o gryfderau am ddewis achos beirniadol fel dull o gasglu data, er enghraifft y rhyddid i dreulio digon o amser yn y sefyllfa, sydd yn galluogi pobl i sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth gywir (Kumar, 2014). Ar y llaw arall, mae'n bosib fod yn rhagfarnllyd wrth arsylwi sydd yn gallu cael effaith enfawr. Mae pethau fel cefndir addysgol yn gallu achosi pobl i ragfarnu ar sefyllfa, felly bydd rhaid i'r arsylwr cymer ofal am hyn a sicrhau bod y canlyniadau'n ddiduedd (Kumar, 2014).

Mae digwyddiadau critigol yn cael eu creu gan y ffordd y mae person yn dehongli digwyddiad penodol (Tripp, 2012). Fodd bynnag, gall un person edrych ar sefyllfa yn wahanol i rywun arall, ac mae hyn yn creu'r broblem o'r ffaith bod y digwyddiad yn dod o safbwynt yr unigolyn sydd yn gwneud yn anodd cymharu. Ymhellach, mae angen bod yn ymwybodol ein bod yn beirniadu rhywbeth cyn gwybod y ffeithiau i gyd, a hefyd dim ond yn edrych ar un ochr. Felly mae angen gwneud yn siŵr bod yr arsylwr yn cofio hyn wrth greu nodiadau. Mae digwyddiadau wrth arsylwi yn llai rhagweladwy, sy'n golygu ei bod yn bosibl cyflawni gwahanol ganlyniadau o fewn casglu data a fyddai'n cael ei wrthod mewn ffurfiau eraill er enghraifft holiadur (Cohen et al., 2018).

Roedd gwybodaeth a thystiolaeth wedi cael ei chasglu wrth arsylwi ar yr hyn mae plentyn X yn gwneud, wrth hefyd edrych ar ryngweithiadau â'r amgylchedd dysgu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018). Dull effeithiol arall am gasglu data yw 'astudiaeth achos', oherwydd mae hyn yn rhoi cyfle i un agwedd gael ei hastudio'n fanwl (Bell, 2005). Un anfantais o ddefnyddio astudiaeth achos fel dull yw'r anhawster i groeswiro gwybodaeth sy'n golygu ei bod yn colli dilysrwydd (Bell, 2005). Mae digwyddiad critigol yn fath o astudiaeth achos, ond mae digwyddiad critigol yn caniatáu ichi ganolbwyntio ar un peth yn benodol. Felly, bydd achos critigol yn caniatáu i'r arsylwr i edrych yn fanwl ar y sefyllfa sydd y rheswm am ddewis y dull hwn.

Pedwar Pwrpas

Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar yr ymddygiad diddorol a ddigwyddodd ym mlwyddyn 2 a sut mae'n cysylltu â phedwar pwrpas Donaldson. Mae Donaldson (2015),

yn cyflwyno pedwar pwrpas yn ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' megis: 'yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog-barod i ddysgu drwy gydol eu hoes', 'yn gyfranwyr mentrus, creadigol- barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith', 'yn unigolion iach, hyderus- barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas', ac 'yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus- barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd'. Yn ystod yr arsylwi roedd yn amlwg bod gan blentyn X ddisgwyliadau ymddygiad gwahanol, wrth gymharu â'r disgyblion eraill yn y dosbarth. Megis, cael eistedd ar gadair yn ei gornel, tra bod y disgyblion eraill yn eistedd ar y llawr o flaen y dosbarth. Felly, roedd yn amlwg bod gan yr athrawes dosbarth wahanol strategaethau addysgu ar gyfer plentyn X. Ymhellach, oherwydd y grŵp oedran, gallai fod plentyn yn y dosbarth hwnnw hefyd eisiau eistedd yn y gornel yn chwarae LEGO, yn lle eistedd ar y mat yn gwrando ar y cyflwyniad ar gyfer y wers fathemateg. O ganlyniad, mae hyn yn gallu achosi'r plant y dosbarth meddwl bod nhw ddim yn cael cyfleoedd cyfartal

Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu oherwydd wnaeth yr athrawes dosbarth defnyddio timer (10 munud) i gael sylw plentyn X. Sydd yn meddwl bod plentyn X yn barod i wrando a gobeithio dysgu trwy'r cyfnod byr yna. Roedd yr athrawes hefyd wedi gwahaniaethu gwaith i blentyn X, ac mae hyn yn gallu codi hyder plentyn X i gwblhau'r dasg. Sydd yn dod mewn i unigolion iach, hyderus â thrwy adael plentyn X i eistedd yn ei gornel, yn lle gorfodi ei fod yn eistedd ar y mat fel pawb arall, yn gallu helpu ei iechyd meddwl. Felly, bydd angen bod yn drugarog â rheolau 'arferol' yr ystafell ddosbarth, sydd yn amlwg wedi digwydd o fewn y dosbarth yma. Mae'r athrawes dosbarth wedi cymryd y camau penodol i sicrhau bod plentyn X yn cael diwrnod positif yn ysgol, sydd yn cynyddu'r siawns y bydd gwaith ysgol yn cael ei gwblhau. Mae hyn hefyd yn clymu mewn i unigolion iach, hyderus.

Mae'r athrawes dosbarth yn rhoi dau opsiwn i blentyn X pryd mae'n amser i gwblhau gwaith. Hefyd wrth adeiladu pethau gwahanol gyda'r lego, mae hyn yn annog creadigrwydd sydd yn adlewyrchu cyfranwyr mentrus a chreadigol.

Bydd 'dinasyddion egwyddorol' yn datblygu trwy integreiddio plentyn X yn araf i fewn i gymuned yr ystafell ddosbarth, wrth annog cymryd rhan mewn gwersi a dysgu pethau newydd. Wrth wneud y pethau arferol pob dydd, efallai bydd gwell dealltwriaeth yr hyn a ddisgwylir i blentyn X fod yn llwyddiannus yn y gymuned. Felly, mae'r athrawes dosbarth

yn sicrhau bod pedwar pwrpas Donaldson (2015), yn cael ei ddefnyddio. Ond, efallai achos y potensial o blentyn X fod gyda ASA, mae angen gweithio round y cwricwlwm i sicrhau bod y pedwar pwrpas yn cael ei integreiddio i fewn i fywyd ysgol.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r arsylwad o ddosbarth blwyddyn 2, yn caniatáu archwilio llawer o agweddau ynghylch ymddygiad diddorol plentyn X. Er bod yna lawer o wahanol ffyrdd o archwilio'r maes hwn, bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar 4 agwedd penodol megis: lles, cynhwysiant, adeiladaeth gymdeithasol a sgaffaldiau.

Gellir diffinio cynhwysiant fel y broses o nodi a deall y rhwystrau sydd i berthyn a chyfranogi (Guldborg, 2010). Felly, mae hyn yn golygu mynd yn nhu hwnt i addysg ac i sicrhau bod y profiad ysgol fel cyfan yn un addas i'r plentyn penodol. O ganlyniad, efallai bydd angen gwneud addasiadau i'r amgylchedd dysgu a hefyd y ffordd mae'r staff yn gweithio yn arferol (Wilkinson, 2010). Ymhellach, mae angen ystyried persbectif y plentyn ac wedyn gwneud newidiadau ynglŷn ag amgylchedd addysgeg (Leavers & Declercq, 2018). Mae hyn wedi digwydd o fewn ysgol L, oherwydd wnaeth yr athrawes creu cornel penodol i blentyn X. Mae Guldborg (2010), hefyd yn codi sylw amdano gysondeb ac eglurder o fewn y dosbarth ac ysgol gyfan, bydd hyn yn awgrymu bydd y plentyn yn teimlo fel rhan o gymuned ysgol wrth ddeall y system â'r disgwyliadau.

Guldborg (2010), yn nodi pwysigrwydd cynhwysiant yn yr ystafell ddosbarth a hefyd ymglymiad rhieni. Os oes unrhyw broblemau yn y dosbarth o ran ymddygiad neu ddatblygiad, yna mae angen i'r rhieni weithio gyda'r ysgol i sicrhau nad oes unrhyw broblemau cynhwysiant. Fe'i gweithredir yn aml trwy ddefnyddio grwpiau bach neu 1:1 gyda phlant eraill, a gallai hyn ddechrau o blentyn X a phlentyn arall chwarae gyda'i gilydd gyda LEGO. Byddai hyn yn annog cyd-ddiordeb rhyngddynt ac o ganlyniad yn gallu datblygu sgiliau cyfarthrebu (Guldborg, 2010).

Diffinnir lles fel gwladwriaeth lle mae rhywun yn teimlo'n gartrefol, yn dangos digymelldeb, hunanhyder ac yn mwynhau ei bresenoldeb a'i ryngweithio ag eraill (Leavers & Declercq, 2018). Mae hawl sylfaenol i blant brofi llesiant ac ymglymiad ym mha bynnag leoliad addysgol (Leavers & Declercq, 2018). Yn ôl Graddfa Leuven [gweler atodiad 6], dangosodd plentyn X lefel 'cymedrol' i 'uchel' ynglŷn â lles o fewn y dosbarth. Fodd bynnag, o ran y raddfa ymglymiad, nid oedd plentyn X yn rhan o'r gweithgaredd

cyflwyno oherwydd oedd yn chwarae LEGO yn y gornel arbennig. Felly, bydd plentyn X yn dod o fewn y categori 'dim gweithgaredd' o'r arsylwad penodol hwn [gweler atodiad 6].

Roedd yr arsylwad dros 1 awr, sy'n golygu y gallai lles plentyn X newid trwy gydol y dydd. Mae hyn yn adlewyrchu ar les plentyn X, gan fod yn fwy cyfforddus yn chwarae LEGO yn y gornel arbennig, yn hytrach nag eistedd ar y mat gyda phawb arall. Mae'r athrawes yn cymryd rhan amlwg i sicrhau bod plentyn X wedi'i gynnwys wrth ddefnyddio amser ydd 10 munud, sy'n rhoi cyfle i'r plentyn ddysgu gwybodaeth newydd a bod yn rhan o'r dosbarth. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod cysylltiad agos rhwng lles disgyblion â dysgu gwell (King & Datu, 2017), sy'n pwysleisio ar bwysigrwydd o sicrhau lles o fewn y dosbarth.

Credir fod y trosiad o sgaffaldiau yn deillio o waith adeiladu lle mae'n cynrychioli strwythur dros dro a ddefnyddir i godi adeilad, ond o fewn addysg mae sgaffaldiau addysgol yn golygu'r gefnogaeth a roddir i helpu'r anghenion disgyblion (Pol et al., 2015). Mae athrawon yn addasu'r gefnogaeth i sicrhau bod y disgybl yn symud i well dealltwriaeth. Felly, bydd yr athro yn ymyrryd ac yn rhyngweithio gyda'r disgyblion i sicrhau bod y cyflawniad gorau yn cael ei gyflawni (Pol et al., 2015). Pan fydd cefnogaeth yn cael ei haddasu i ddealltwriaeth y disgybl, bydd y cysylltiadau rhwng gwybodaeth newydd a gwybodaeth sydd eisoes wedi'u storio yn y cof tymor hir (Pol et al., 2015).

Mae cysylltiad agos rhwng cysyniad Vygotsky o sgaffaldiau â'r cysyniad o barth datblygiad agosrwydd (PDA), sydd yn cyfeirio at y gefnogaeth dros dro a roddir i blentyn gan bobl eraill megis athrawon a rhieni (Fani & Ghaemi, 2011). Mae hyn yn galluogi'r plentyn i gwblhau tasg a dros amser bydd y plentyn yn gallu gwneud y dasg yn annibynnol. Mae Vygotsky yn meddwl bod gan ddysgwr y potensial i symud ymlaen o'i lefel ddatblygiadol wirioneddol i lefel ddatblygiadol potensial trwy sgaffaldiau, sy'n digwydd wrth ryngweithio ag eraill sy'n uwchraddol (Khaliliaqdam, 2014)

Mae'r dysgu'n cael ei wella'n sylweddol pan mae'r awyrgylch y dosbarth mewn naws gydweithredol a chefnogol (Khaliliaqdam, (2014), ac roedd Ysgol L wedi adlewyrchu

hyn. O fewn munudau, roedd yr arsylwr yn gallu sylweddoli bod naws dda o fewn dosbarth blwyddyn 2.

Datblygodd Bruner scaffaldio ymhellach a daeth theori sgaffaldiau i'r amlwg tua 1976 fel rhan o theori adeiladol gymdeithasol (Wood, Bruner & Ross, 1976). Roedd Bruner wedi cael ei ddylanwadu yn arbennig o waith Vygotsky. Dadleuodd Vygotsky ein bod yn dysgu orau mewn amgylchedd cymdeithasol, lle rydym yn llunio ystyr trwy ryngweithio ag eraill. Mae theori 'Parth Datblygiad Proximal' Vygotsky, lle gallwn ddysgu mwy ym mhresenoldeb person sydd yn fwy gwybodus, oedd y wedyn y templed ar gyfer model Burner (Upham et al., 2014).

Credai Bruner, pan fydd plant yn dechrau dysgu cysyniadau newydd, bod angen help arnynt ar ffurf cefnogaeth weithredol gan athrawon ac oedolion. Wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol yn eu meddwl a chaffael sgiliau a gwybodaeth newydd, gellir pylu'r gefnogaeth yn raddol (Upham et al., 2014). Mae'r math hwn o ryngweithio strwythuredig rhwng y plentyn a'r oedolyn yn debyg i'r sgaffaldiau sy'n cefnogi codi adeilad, sydd yn datgymalu'n raddol wrth i'r gwaith gael ei gwblhau (Upham et al., 2014). Mae sgaffaldiau'n cynrychioli gostyngiad yn y nifer fawr o ddewisiadau y gall plant eu hwynebu, i ganolbwyntio ar gaffael y sgil neu'r wybodaeth sy'n ofynnol yn unig (Upham et al., 2014).

Ymhellach, mae'n bosib scaffaldio trwy gymorth o wahanol bobl megis cynorthwywyr dysgu, rhieni a hefyd plant eraill o fewn y dosbarth (Upham et al., 2014). Mae athrawes cynorthwydd yn y dosbarth arsylwad, a hefyd oedd rhiant yn dod mewn ar ddydd lau i helpu gyda darllen, a gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn i blentyn X ac yr athrawes dosbarth. Os mae rhywun yn gallu eistedd gyda phlentyn X a trial cael y plentyn i ryngweithio o fewn y dosbarth, bydd hynny'n rhoi cyfle i'r athrawes gweithio ar syniadau ar sut i sicrhau lles y plentyn, ond hefyd pa fath o gamau dylai'r athrawes i addysgu gwahanol sgiliau newydd i'r plentyn. Gellir defnyddio sgaffaldiau ar draws pob pwnc dysgu ac ar gyfer pob oedran (Upham et al., 2014).

Mae theori Vygotsky ar ddysgu cymdeithasol-ddiwylliannol yn amlygu'r rôl o ryngweithio a chwarae yn gymdeithasol a diwylliannol o fewn y proses ddysgu, ac mae pobl yn dysgu oddi wrth ein gilydd. Y prif themâu yn theori cymdeithasol-ddiwylliannol Vygotsky

yw'r parth datblygiad agosrwydd. Gellir diffinio adeiladwaith o fewn cyd-destun addysgol fel dealltwriaeth sy'n digwydd o ganlyniad gweithgareddau meddyliol y dysgwr (Walker and Shore, 2015). Er mae'r unigolyn sydd yn adeiladu gwybodaeth ei hun, mae rhyngweithiadau cymdeithasol yn gallu dylanwadu cryf ar y broses hon (Walker and Shore, 2015), ac mae adeiladwaith cymdeithasol yn ymgorffori hyn.

Mae adeiladaeth gymdeithasol, felly, yn disgrifio'r rhyng-gysylltiadau ymhlith unigolion a'u bydoedd cymdeithasol, ar ôl adeiladu ar wybodaeth (Walker and Shore, 2015). Ymhellach, mae Vygotsky yn datgan bod cyfathrebu ar lafar rhwng plant ac oedolion yn bwysig iawn i sicrhau bod y plant yn caffael gwybodaeth gysyniadol. Hefyd, mae plant yn dysgu fel i siarad trwy ddeialog ac wedyn yn deall ystyr lleferydd trwy greu cysylltiadau ymhlith cysyniadau (Walker and Shore, 2015). Felly, mae angen herio plant gyda deunydd dysgu y byddent fel arfer methu cwblhau heb help, ond gyda chymorth, gallent ddysgu'n llwyddiannus (Walker & Shore, 2015).

Yn bennaf, mae dysgu trwy rhyngweithio cymdeithasol yn rhywbeth amlwg o fewn y cyfnod sylfaen, oherwydd y gwahanol ardaloedd sydd yn hyrwyddo dysgu trwy chwarae. O fewn dosbarth yr arsylwad (blwyddyn 2), oedd cyfleoedd i gymdeithasu a rhyngweithio trwy gydol y wers. Felly, mae'r hyn ysgrifennodd Walker and Shore (2015) amdano, yn cael ei defnyddio o fewn ysgol L. Fodd bynnag, nid oedd plentyn X eisiau cyfrannu cymdeithasol yn ystod yr arsylwad. Felly, yn amlwg bydd angen cyflwyno adeiladaeth gymdeithasol pryd bynnag mae'n berthnasol, i sicrhau cyfleoedd dysgu i blentyn X.

Adfyfrio

Defnyddiais y model myfyrion gan Gibbs (1988) i fyfyrion ar fy arsylwadau digwyddiad critigol [gweler atodiad 8-11]. Mae'r model hwn yn cynnig gwahanol gamau sy'n helpu'r unigolyn i weithio trwy'r profiad, sy'n helpu'r unigolyn i ddod i gasgliad ar sut i gymhwyso pethau'n wahanol yn y dyfodol (The University of Edinburgh (2019)).

Ffurfiwyd fy nigwyddiad beirniadol o ymddygiad diddorol a gyflwynwyd gan blentyn X o flwyddyn 2, yn ystod gwers gyntaf y dydd. Cydnabuwyd yr ymddygiad hwn yn gyflym iawn fel rhywbeth gwahanol i weddill y disgyblion yn y dosbarth, yn enwedig gan fod plentyn X yn eistedd mewn rhan wahanol o'r dosbarth. Roedd yr athrawes wedi rhoi cyflwyniad ar y wers (mathemateg), tra bod plentyn X yn canolbwyntio ar chwarae gyda'r

LEGO. Fodd bynnag, unwaith y byddai'r athrawes eisiau sylw plentyn X, byddai amserydd o 10 munud yn dod ymlaen a byddai plentyn X yn troi ac yn gwrando. Felly, roedd gan yr athrawes 10 munud i gyflwyno gwybodaeth bwysig i blentyn X cyn rhoi sylw yn ôl i'r LEGO. Ar ôl yr arsylwad, esboniodd yr athrawes dosbarth ei fod plenty X yn aros am asesiad oherwydd bod yn cyflwyno ymddygiadau tebyg i anhwylderau sbectwm awtistig (ASA). Felly, oherwydd y wybodaeth hon, roeddwn i yn deall pam y caniatwyd i'r plentyn eistedd yn wahanol i bawb arall a chwarae gyda LEGO.

Roedd awyrgylch heddychlon yn yr ystafell ddosbarth ac yn ystod y digwyddiad critigol, roeddwn i'n teimlo bod gan yr athrawes reolaeth dda ar y dosbarth. Roedd y cynorthwyydd dosbarth yn paratoi ar gyfer y gweithgaredd awyr agored [gweler atodiad 9] hefyd roedd rhiant yn helpu gyda darllen. Parhaodd y plant eraill â'r tasgau oedd yn rhan o'r cyflwyniad, a chredaf fod y plant wedi arfer â'r ymddygiad plentyn X, gan nad oeddent yn cwestiynu amdano plenty X yn chwarae gyda LEGO. Roedd yr arsylwad hwn o fewn pythefnos cyntaf y flwyddyn academaidd newydd, sy'n golygu bod yr athrawes a'r cynorthwyydd dosbarth yn y broses o ddod i adnabod pob plentyn a'i anghenion penodol. Felly, i gael canlyniad cywir ar gyfer fy nodiadau arsylwi, yna byddwn yn arsylwi eto i weld a oes unrhyw themâu neu newidiadau.

Mae'r athrawes yn annog creadigrwydd trwy ganiatáu i blentyn X greu gwahanol bethau gyda'r LEGO. Roedd hefyd yn amlwg bod plentyn X yn teimlo'n gyffyrddus ac yn fodlon. Yr unig brofiad dysgu siomedig yn fy marn i oedd, heb weld plentyn X yn bresennol yn y profiad dysgu yn ystod y cyflwyniad. Fodd bynnag, credaf fod yr athrawes wedi addasu'r arddulliau addysgu i weddu i anghenion y plentyn, ac oherwydd hyn roeddwn i wedi dysgu llawer.

Byddwn yn cadw'r syniad o ddefnyddio amserydd ond byddwn yn dechrau cynyddu'r amser, i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddysgu'r sgiliau mathemategol newydd. Wrth gynyddu'r amser bydd hyn yn codi'r tebygolrwydd o gwblhau'r dasg, oherwydd bydd plentyn X wedi gwrando ar wybodaeth bwysig. Hoffais y syniad o roi dau opsiwn i ddewis o ran cwblhau gwaith, gan fod hynny'n rhoi'r rheolaeth yn ôl i'r plentyn. Mae'r syniad o'r gornel arbennig yn beth arall yr oeddwn yn ei hoffi, ond efallai fel opsiwn o fynd yno os bydd pethau'n mynd yn ormod yn yr ystafell ddosbarth. Yr achos o'r elfen fwyaf siomedig fyddai'r cwricwlwm cyfredol, ond gobeithio gyda fframwaith newydd

Donaldson y byddai hyn yn caniatáu mwy o ryddid a chreadigrwydd yn yr ystafelloedd dosbarth.

Gan fod plenty X yn dangos diddordeb mewn LEGO, byddwn yn cyflwyno therapi LEGO, sy'n defnyddio'r diddordeb naturiol mewn chwarae fel offeryn i gynyddu sgiliau cyfathrebu a chymhwysedd cymdeithasol (Lindsay et al., 2017). Mae therapi LEGO yn rhywbeth newydd o helpu plant gyda chynhwysiant, sy'n golygu achos mae'n rhywbeth newydd, efallai na fydd y therapi yn llwyddiannus. Fodd bynnag, os bydd yn ddefnyddiol, bydd hynny'n helpu i wneud gwahaniaeth yn yr ystafell ddosbarth. Y pwysigrwydd o ddefnyddio chwarae fel ffordd o ddysgu i blant a rôl yr oedolyn i fod yn hwylusydd, yn benodol bwysig i blant ifanc (Broadhead, 2006).

Cyflwyno amserlen weledol bersonol gan ddefnyddio lluniau [gweler atodiad 7], rhag ofn nad yw'r plentyn yn gallu darllen Wilkinson (2010)-. Mae plentyn X yn cyfathrebu trwy'r Saesneg yn unig ac felly byddwn yn sicrhau bod yr amserlen yn yr iaith fwyaf defnyddio (Frederickson et al., 2010). O ran y wers siapiau mewn mathemateg, efallai defnyddio gwrthrychau neu siapau synhwyraidd i helpu gyda chanolbwyntio a dysgu (Fazlioğlu & Baran, 2008), a hefyd i ddefnyddio'r LEGO i greu siapau gwahanol.

Os oes ASA gan blentyn X, yna na fydd yn deg i drin y plentyn yn union fel pawb arall, a disgwyl i'r plentyn i ymddwyn fel pawb arall. Byddai addasu strategaethau addysgu ac efallai addysgu damweiniol yn fwy defnyddiol i blentyn X, cymharu â disgwyl y plentyn i eistedd a gweithredu mewn ffordd nad yw'n addas i'r person a'i anghenion Wilkinson (2010).

Felly, o ddefnyddio'r model myfyriol gan Gibbs (1988), sicrhodd fy mod yn gallu prosesu pob cam. Dysgodd yr arsylwad hwn lawer imi, ac yn arbennig i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu. Ar ben hynny, mae'r digwyddiad critigol hwn wedi effeithio ar fy natblygiad proffesiynol fy hun, gan y byddaf yn sicrhau fy mod yn deall anghenion pawb.

Casgliad

I grynhoi, mae'r traethawd hwn wedi mynd i'r afael â'r gwahanol ddarnau o lenyddiaeth sy'n ymwneud â'r digwyddiad beirniadol penodol hwn. Caniataodd y cam arsylwi imi

wedyn fyfyrion ar wahanol strategaethau addysgu a sut i'w gweithredu'n effeithiol megis dewis safeloedd (see appendix) fel techneg o reoli dosbarth a sicrhau golygfa pawb (Hazari et al., 2015). Trwy adlewyrchu a gweithio ar y camau nesaf, mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd pedwar pwrpas Donaldson (2015), sydd o ganlyniad yn galluogi'r addysgu gorau. Wrth ddilyn model myfyrion, bydd hyn yn achosi cynnydd yn yr amgylchedd addysgu a hefyd yn sicrhau bod lles y plant ar y brig.

Cyfeiriadau:

Bell, J (2005). *Doing your Research Project- a guide for first time researchers in education, health and science*. 4th ed. Berkshire: Open University Press.

BERA. (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research (4th Ed)*. Ar gael ar lein: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online>. Cyrchwyd: 5/10/19

Broadhead, P. (2006). Developing an Understanding of Young Children's Learning Through Play: The Place of Observation, Interaction and Reflection. *British Educational Research Journal*, 32(2), pp.191–207.

Cohen, L., Manion, L., Morrison K (2018). *Research Methods in Education*. Llundain: Routledge. P51-375

Daniels, H (2016). *Vygotsky and Pedagogy*. Llundain: Routledge. T1-69 . – classic edition.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu Yng Nghymru*. Caerdydd: Crown Copyright. Ar gael ar lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> Cyrchwyd: 16/10/19

Estyn. (2017). *Adroddiad ar [REDACTED]*. Ar gael ar lein: [https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-\[REDACTED\]/UploadedDocument/1bb6d9db898d485c8a78e507226d50ef/adroddiad-estyn_ygg-\[REDACTED\]-2017-cym.pdf](https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-[REDACTED]/UploadedDocument/1bb6d9db898d485c8a78e507226d50ef/adroddiad-estyn_ygg-[REDACTED]-2017-cym.pdf). Cyrchwyd 8/10/19.

Fani, T. & Ghaemi, F., (2011). Implications of Vygotsky's Zone of Proximal Development (ZPD) in Teacher Education: ZPTD and Self-scaffolding. *Procedia - Social and Behavioral Sciences*, 29, T1549–1554.

Fazlioğlu, Y. & Baran, G., (2008). A sensory integration therapy program on sensory problems for children with autism. *Perceptual and Motor Skills*, 106(2). T415-422.

Fletcher-Wood, H., (2016). *Ticked Off: Checklists for teachers, students, school leaders*. Crown House Publishing.

Frederickson, N., Jones, A.P. & Lang, J., (2010). Inclusive provision options for pupils on the autistic spectrum. *Journal of Research in Special Educational Needs*, 10(2), T.63-73.

Gibbs, G. (1988). *Learnig by Doing: A Guide to Teaching and Learning Methods*. Llundain: Further Education Unit at Oxford Polytechnic.

Guldborg, K . (2010). Educating children on the autism spectrum: preconditions for inclusion and notions of 'best autism practice' in the early years. *British Journal of Special Education*. 37 (4), T168-174.

Hazari, Z., Cass, C. and Beattie, C., (2015). Obscuring power structures in the physics classroom: Linking teacher positioning, student engagement, and physics identity development. *Journal of Research in Science Teaching*, 52(6), T.735-762.

Khaliliaqdam, S., (2014). ZPD, Scaffolding and Basic Speech Development in EFL Context. *Procedia - Social and Behavioral Sciences*, 98(C), T.891–897.

King, R.B. & Datu, J.A. (2017). Happy classes make happy students: Classmates' well-being predicts individual student well-being. *Journal of School Psychology*, 65, T.116–128.

Kumar, R (2014). *Research Methodology a step-by-step guide for beginners*. 4ydd argraffiad. Llundain: SAGE publications Ltd. T11-49

Laevers, F & Declercq, B. (2018). How well-being and involvement fit into the commitment to children's rights. *European Journal of Education*, 53(3), T325-335.

Leatherman, J & Niemeyer, J. (2005). Teachers' Attitudes Towards Inclusion: Factors Influencing Classroom Practice. *British Journal of Special Education*. 26 (1), T23-37.

Lindsay, S., Hounsell, K.G. and Cassiani, C., (2017). A scoping review of the role of LEGO® therapy for improving inclusion and social skills among children and youth with autism. *Disability and health journal*, 10(2), T173-182.

Pol, J., Volman, M., Oort, F., Beishuizen, J. (2015). The effects of scaffolding in the classroom: support contingency and student independent working time in relation to student achievement, task effort and appreciation of support. *Instructional Science*, 43(5), T615–641.

The University of Edinburgh. (2019). *Gibbs' reflective cycle*. Ar gael arlein: <https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle>. Cyrchwyd: 24/10/19.

Tripp, D (2012). *Critical Incidents in Teaching- developing professional judgement* (argraffiad clasurol) Llundain: Routledge. T8-152

Upham, P., Carney, S. & Klapper, R., (2014). Scaffolding, software and scenarios: Applying Bruner's learning theory to energy scenario development with the public. *Technological Forecasting & Social Change*, 81(C), T131–142.

Walker, C.L. & Shore, B.M., (2015). Understanding Classroom Roles in Inquiry Education: Linking Role Theory and Social Constructivism to the Concept of Role Diversification. *SAGE Open*, 5(4), T13.

Wilkinson, L (2010). *A best practice guide to assessment and intervention for autism and Asperger syndrome in schools*. Llundain: Jessica Kingsley. T14-147

Wood, D., Bruner, J.S. and Ross, G., 1976. The role of tutoring in problem solving. *Journal of child psychology and psychiatry*, 17(2), T89-100.

Atodiadau:

Atodiad 1



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES- 1

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 29/9/19
Manylion y wers: - Cyflwyniad i'r dosbarth cyfan - Blwyddyn 2 (30 o ddisgyblion) - Gwers Mathemateg ar siapau 2D/3D 2 tasg ffocws
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Pawb (ond un disgybl) yn eistedd ar y mat ar gyfer y cyflwyniad - Heddychlon iawn - Pawb yn deall y system ardaloedd - Disgyblion yn deall y gwaith ac yn gweithio'n annibynnol o fewn yr ardaloedd
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - I adnabod siapau 2D a 3D - Grwp ffocws, annibynnol, y warchodfa, ardaloedd. - Pwrpas clir i'r wers a hefyd gweithgareddau penodol yn yr ardaloedd - Nid yw plentyn X yn ymwybodol o unrhyw siapau
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Bydd plentyn X yn trefnu rhifau (yn lle gwneud gwaith siapau) - Taflenni gwaith - Defnyddio côd marcio, ac mae'r plant yn deall os mae angen mwy o adborth
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Gwaith wedi cael ei dosbarthu o ran gallu sydd yn sicrhau bod pawb herio, wrth gwneud hyn mae plant yn gallu cwblhau tasg sy'n cyfateb i'w lefel - Plentyn X ddim yn dilyn y wers arferol, ac mae pob dydd yn gallu bod heriol mewn gwahanol ffyrdd - Plentyn X ddim wedi cyfrannu at y gwahanol tasgiau yn y cyflwyniad - Efallai mae'r tasg dal yn rhy anodd i blentyn X, ac y rheswm am ddim cwblhau'r gwaith
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Bodiau i fyny, ffonio ffrind, ffiniau lolipop, tasg yn y cyflwyniad - Côd marcio
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
- Un plentyn yn eistedd ar gadair yn ei gornel penodol, yn lle eistedd ar y mat gyda gweddill y dosbarth. - Chwarae gyda LEGO - Ddim yn cyfathrebu neu ryngweithio gyda disgyblion eraill - Athrawes yn defnyddio amser ydd 10 munud i gael y plentyn i ganolbwyntio ac wedyn mynd yn ôl i chwarae LEGO

Atodiad 2



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES- 2

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 29/9/19
Manylion y wers: • Cyflwyniad i'r dosbarth cyfan • Gwers Mathemateg ar siapau 2D/3D • Blwyddyn 2 (30 o ddisgyblion) • Gwers Mathemateg ar siapau 2D/3D • 2 tasg ffocws
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) • Disgyblion yn deall y gwaith ac yn gweithio'n annibynnol o fewn yr ardaloedd
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) • Pwrpas clir i'r wers a hefyd gweithgareddau penodol yn yr ardaloedd • Gwers tu allan o'r dosbarth, a chyfle i adeiladu pabell 3D (gweledol)
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) • Efallai nad oedd un disgybl wedi deall y cyfarwyddiadau ac yna ddim wedi ymateb/ymuno gyda'r grŵp i wneud y gwaith
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) • Gwaith wedi cael ei dosbarthu o ran gallu sydd yn sicrhau bod pawb herio • 'Disgybl Y' efallai wedi cael ei herio gormod ac yn llai hyderus
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? • Bodiau i fyny, ffonio ffrind, ffiniau lolipop, tasg yn y cyflwyniad • Cod marcio
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? • Gwaith grŵp i adeiladu pabell (siâp 3D) • Un plentyn ddim yn hyderus • Safodd yn ôl ac arsylwi pawb arall

Atodiad 3



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES- 3

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 29/9/19
Manylion y wers: • Blwyddyn 2 (30 o ddisgyblion) • Gwers Mathemateg ar siapau 2D/3D • 2 tasg ffocws
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) • Disgyblion yn deall y gwaith ac yn gweithio'n annibynnol o fewn yr ardaloedd
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) • Pwrpas clir i'r wers a hefyd gweithgareddau penodol yn yr ardaloedd • Adlewyrchu gwaith blaenorol 2D-3D
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) • Pawb yn deall, ond yn amlwg efallai wnaeth y disgybl mynd i'r tŷ bach oherwydd mae'n cael trafferth cwblhau'r gwaith • Mae system 'ty bach' gyda'r dosbarth, sydd yn golygu does dim angen gofyn am ganiatad i fynd i'r ty bach. Ond oherwydd hyn, oedd yr athrawes ddim yn ymwybodol faint o amser oedd disgybl P wedi cymryd mas o'r dosbarth
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) • Gwaith wedi cael ei dosbarthu o ran gallu sydd yn sicrhau bod pawb herio • Pawb wedi dilyn y wers ac wedi symud o siapiau 2D i 3D (i herio'r plant)
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? • Bodiau i fyny, ffonio ffrind, ffiniau lolipop, tasg yn y cyflwyniad • Cod marcio
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? • Grŵp annibynnol (gwers Mathemateg) • Un plentyn wedi mynd i'r tŷ bach • Pawb arall yn y grŵp wedi gorffen y gwaith • Heb ddychwelyd am amser • Siart 'Tŷ Bach'

Atodiad 4




Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES- 4

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: • Blwyddyn 1 a 2 (29 o ddisgyblion) • Gwers iaith (ffurfio llythrennau/geiriau Tric a Chlic) • 2 tasg ffocws
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) • Disgyblion yn deall y gwaith ac yn gweithio'n annibynnol o fewn yr ardaloedd • Grŵp annibynnol mas tu fas
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) • Pwrpas clir i'r wers a hefyd gweithgareddau penodol yn yr ardaloedd • Gwers tu allan o'r dosbarth, a chyfle i ddefnyddio sialc yn lle pensil i ffurfio llythrennau/geiriau
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) • Grŵp annibynnol tu allan • Efallai dydy'r disgyblion ddim yn deall beth mae angen nhw i'w wneud, a dyna pam maen nhw'n rhedeg rownd tu allan, yn lle ffurfio llythrennau gyda sialc
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) • Gwaith wedi cael ei dosbarthu o ran gallu sydd yn sicrhau bod pawb herio • Chwarae gyda'r sialc • Efallai oedd y gwaith yn rhy hawdd
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? • Bodiau i fyny, ffonio ffrind, ffiniau lolipop, tasg yn y cyflwyniad • Cod marcio
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? • Gwers iaith • Grŵp annibynnol tu allan • Chwarae gyda sialc yn lle ffurfio llythrennau/geiriau Tric a Chlic • Efallai gofyn i'r cynorthwydd dosbarth i gylch droi, i sicrhau bod pawb ar dasg

Atodiad 5



Atodiad 6

Graddfa Leuven ar gyfer llesiant

<u>Lefel</u>	<u>Lles</u>
1	<u>Isel iawn</u>
2	<u>Isel</u>
3	<u>Canolig</u>
4	<u>Uchel</u>
5	<u>Uchel iawn</u>

Graddfa Leuven ar gyfer ymglymiad

1	<u>Dim gweithgaredd</u>
2	<u>Gweithgarwch bylchog</u>
3	<u>Gweithgaredd heb ddwyster</u>
4	<u>Gweithgaredd gydag adegau dwys</u>
5	<u>Gweithgaredd dwys parhaus</u>

(Leavers & Declercq, 2018)

Atodiad 7

carpet time**assembly****phonics**

Rwyf wedi ei greu yn Saesneg gan mai dyna'r brif iaith y mae plentyn X yn ei defnyddio i gyfarthrebu.
(ASDinfoWales)

Atodiad 8



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad: 29/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws): Ymddygiad Diddorol

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	• Roedd awyrgylch heddychlon yn y dosbarth • Profiad arbennig i weld sut mae digwyddiadau gwahanol yn digwydd o fewn bywyd ysgol • Wedi dysgu llawer wrth edrych ac arsylwi, sydd wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i>	• Disgybl X ddim wedi cyfrannu at waith y wers Siapau • Yn cael dewis dau opsiwn pryd mae'n amser i gwblhau tasg • Ivan Pavlov- gwobrwyo'r plentyn trwy ganiatáu chwarae gyda lego ar ôl gwrandao ar yr amseredd 10 munud
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf?</i>	• Trefn y grwpiau (o ran gallu) • Cyflwyniad da i'r wers ac yn cael y plant i ymuno ar wahanol weithgareddau yn ystod y cyflwyniad • Esboniad clir • Newid y waliau i'w gwneud yn llai lliwgar oherwydd gall hynny dynnu sylw plant • Gobeithio bydd y fframwaith newydd yn caniatáu ar gyfer creadigrwydd yn yr ystafell ddosbarth, ac ar sut mae pethau'n cael eu haddysgu
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	• Rhoi trefn benodol y dydd i blentyn X megis amserlen personol • Amlwg bod y disgybl yn mwynhau LEGO (therapi LEGO?) • Darllen llyfrau am bobl wahanol i blant oherwydd mae'r plentyn yma yn cael cyfleoedd/rheolau gwahanol e.e. chwarae LEGO. Helpu gyda cynhwysiant • Creu siapau wrth ddefnyddio lego ac hefyd defnyddio eitemau synhwyraidd
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 9



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad: 29/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws): Ddi-hyder

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	• Wedi mwynhau gweld y plant yn gwneud gwaith allan o'r dosbarth arferol • Teimlo'n hapus i fod yn y warchodfa
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i>	• Adeiladu rhywbeth, sy'n golygu y byddent yn deall siapiau yn well • Yr agweddau positif oedd gweld plant yn gweithio mas tu fas, gyda'i gilydd • Disgybl T ddim yn hyderus o ran adeiladu pabell 3D • Cyfarwyddiadau'n anodd i'r cynorthwydd dopsarth deall gan mai hwn oedd y tro cyntaf i wneud hyn
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i>	• Trefn y grwpiau o ran gallu, sicrhau bod pawb ar yr un lefel • Cadw'r wers tu allan • Defnyddio brigau • Yr achos oedd oherwydd efallai oedd y gwaith yn rhy heriol i ddisgybl T, sydd o ganlyniad wedi achosi ar hyder
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	• Sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol bod angen gweithio fel tîm • Rhoi tasgau penodol i bob aelod o'r grŵp • Modelu adeiladu y pabell
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 10



Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad: 29/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws): Plentyn yn y ty bach

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	- Braf gweld plant yn gweithio'n annibynnol - Teimlo'n fwy hyderus ar sut i ddelio â gwahanol sefyllfaoedd
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i>	- Plant yn gweithio yn annibynnol - Un disgybl wedi mynd i'r ty bach (siart ty bach- cefnogi annibyniaeth) - Heb orffen y gwaith oherwydd bod y plentyn yn y toiled am amser hir
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf?</i>	- Trefn y grwpiau (o ran gallu) - Cyflwyniad dda i'r wers - Esboniad clir, ond effallai oedd y gwaith yn rhy heriol sydd wedi achosi'r plentyn am fynd i'r toiled
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	- Rhoi amser ydd ar y bwrdd (os mae rhywun yn mynd i'r ty bach bydd y grŵp yn gwybod) - Plant yn gallu codi sylw'r athro os mae'r amser ydd wedi gorffen, sydd yn meddwl bod y 'siart ty bach' yn gallu aros - Gofyn i'r cynorthwydd dosbarth i gylch droi o gwmpas, i sicrhau bod pawb yn gweithio ac yn deall
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 11:



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad: 2.10.19

Digwyddiad critigol (Ffocws): Plant ddim yn gwneud y gwaith

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?	Wedi mwynhau gweld y plant yn gwneud gwaith yn yr awyr agored (yn lle ystafell ddosbarth)
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?	- Plant wedi mwynhau gweithio tu allan - Rhai o'r disgyblion wedi colli ffocws ac yn chwarae gyda'r sialc - Ni aeth unrhyw aelod o staff allan i wirio a oeddent ar y dasg, a dyna'r rheswm nad oeddent yn gwneud gwaith - Efallai nad oedd y gwaith yn ddigon heriol
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?	- Trefn y grwpiau - Cyflwyniad - Gwaith ddim yn ddigon heriol sydd wedi achosi'r problem
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?	- Grŵp llai o blant - Newid y grŵp ar ôl amser penodol - Defnyddio aelod o staff i gylch droi - Her newydd ar ôl cwblhau'r gwaith
Y profiad newydd / Transformed experience	